GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Tŷ Matthew, Llys Edmund Prys, Parc Busness Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JA

Matthew House, Llys Edmund Prys, St Asaph Business Park, Denbighshire, LL17 0JA

Mrs Bethan Russell Williams
Prif Swyddog
Mantell Gwynedd
24 – 26 Stryd Fawr
Caernarfon
LL55 1RH

Ein cyf / Our ref: WT Mawrth 01
Eich cyf / Your ref:

Gofynnwch am / Ask for: Wyn Thomas
Ffon/Tel: 01745 582721
Ffacs / Fax: 01745 584606

Dyddiad / Date: 15/04/2011

Annwyl Bethan,

Ariannu Mudiadau Sector Gwirfoddol 2011-12

Pwrpas y llythyr hwn yw rhoi gwybod i chi, fel mudiad sydd â chytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am wasanaethau yn 2011-12, am y trefniadau ariannol perthnasol.

Rydym yn gwerthfawrogi y byddai wedi bod yn well pe gallem fod wedi rhoi cadarnhad i chi yn gynt parthed cyllid, o ran eich bwriadau cynllunio busnes, ond dim ond yn ddiweddar y cadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru eu dyraniadau terfynol i Fyrddau Iechyd ac mae gennym yn awr ddynodiad clir y bydd dyraniad y Bwrdd Iechyd yn parhau ar lefelau ariannu 2010/11 ar gyfer 2011/12. Byddwch hefyd yn ymwybodol o'r sefyllfa gwariant cyhoeddus anodd y byddwn i gyd yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf a'r angen i'r Bwrdd Iechyd graffu'n ofalus ar ei holl wariant.

Mae'n dda gen i allu rhoi gwybod i chi fod penderfyniad wedi cael ei wneud parthed ariannu mudiadau gwirfoddol, a gall y Bwrdd Iechyd gadarnhau y bydd yn cynnal y lefel ariannu a roddwyd yn 2010-11 eto yn 2011-12 ar yr amod bod mudiadau'n bodloni gofynion cytundebol ac yn cyflawni lefel perfformiad boddhaol yn 2010-11.

Pan fydd gan fudiadau gytundebau ar y cyd ag awdurdodau lleol, bydd cyfraniad y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol wedi'i seilio fel yr uchod, ac eithrio pan fydd lleihad yn y gwasanaeth a ddarperir o'i gymharu â'r hyn a gomisiynwyd oherwydd lleihad mewn cyllid gan yr awdurdod lleol perthnasol. Mewn achosion o'r fath, bydd ar y Bwrdd Iechyd angen deall y goblygiadau ac mae'n bosibl y bydd angen ail-drafod telerau.

Yn ystod 2011-12, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu'r holl wasanaethau a gomisiynir gan y Sector Gwirfoddol a sut maent yn ffitio i'n strategaeth gyffredinol ac yn cefnogi'r Grwpiau Rhaglen Glinigol i ddarparu eu gwasanaethau. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y broses a'r amserlen yn nes ymlaen eleni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch â Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Partneriaeth Gymunedol yn Nhŷ Matthew, Llys Edmwnd Prys, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0WA neu Wyn.Thomas@Wales.nhs.uk .

Yn gywir,

Wyn Thomas
Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Partneriaeth Gymunedol